

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# *Phytophthora ramorum*
# Strategaeth ar gyfer Cymru

## Cynnwys


**1. Crynodeb** 3

**2. Cyflwyniad** 4

**3. Egwyddorion a diben** 6

**4. Rheoleiddio** 7

**5. Clefyd** **7**

5.1. Hanes 7

5.2. Bioleg 7

5.3. Lledaeniad 9

5.4. Organebau lletyol terfynol/sy'n sborynnu 9

5.5. *Phytophthora ramorum* yng Nghymru 9

**6. Cynllun Gweithredu *Phytophthora ramorum* Cymru 2019** **11**

6.1. Crynodeb 11

6.2. Goruchwyliaeth 11

6.3. Hysbysiadau Iechyd Planhigion Statudol a Llythyrau Hysbysu 12

6.4. Triniaeth ar ôl derbyn Llythyr SPHN neu Lythyr Hysbysu 13

6.5. Ffiniau Parth Craidd y Clefyd 13

6.5.1. Parth Craidd y Clefyd 1 (CDZ1) 15

6.5.2. Parth Craidd y Clefyd 2 (CDZ2) 16

6.5.3. Parth Cyfyngu ar y Clefyd (DLZ) 16

6.6. Dulliau/Grantiau 17

6.7. Plâu eilaidd 17

**7. Llyfryddiaeth** **18**


OGL ISBN digidol 978-1-83876-326-8 © Hawlfraint y Goron 2019 WG37802

## Cynulleidfa

Mae’r ddogfen hon ar gyfer llunwyr polisi, gweithwyr coedwigaeth proffesiynol a rhanddeiliaid eraill.

## 1. Crynodeb

Rheoli achosion o *Phytophthora ramorum* mewn coed llarwydd mewn coetiroedd yw prif ganolbwynt y strategaeth hon. Mae'r clefyd yn effeithio ar rywogaethau mewn amgylcheddau eraill hefyd, ond oherwydd yr effaith economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ar raddfa fawr mae *P. ramorum* wedi’i chael ar larwydd yng Nghymru ers 2010, roedd angen cael strategaeth yn canolbwyntio ar yr amgylchedd coetiroedd. Mae’r dasg o reoli amgylcheddau nad ydynt yn goetiroedd yn parhau, gyda sefydliadau’n cydweithio i reoli’r clefyd ar draws pob amgylchedd ledled Cymru.

## 2. Cyflwyniad

Rhennir y ddogfen yn ddwy ran.

- **Strategaeth –** Egwyddorion cyffredinol a gwybodaeth wyddonol.
- **Cynllun Gweithredu –** Manylion gweithredol o'r opsiynau rheoli gwahanol sy'n adlewyrchu'r Strategaeth *Phytophthora ramorum* ar gyfer Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddod â mwy o goetiroedd dan reolaeth, ehangu coetiroedd cenedlaethol a gwella cydnerthedd coetiroedd a choed er budd y cyhoedd, trwy'i strategaeth *Coetiroedd i Gymru 2018*[1], Mae ecosystemau coetiroedd o'r radd flaenaf yn gallu cynnig mwy o fuddion gwirioneddol ar raddfa leol a chenedlaethol. Gweledigaeth Coetiroedd i Gymru yw bod coetiroedd ein gwlad yn gwella ein tirwedd, yn cynyddu bioamrywiaeth a gwasanaethau ecosystem, yn gallu ymateb i newid yn yr hinsawdd a chefnogi diwydiannau sy'n seiliedig ar goetiroedd.

Fel rhan o'r dull hwn, rydym yn cydnabod bod gan blâu, pathogenau a rhywogaethau anfrodorol goresgynnol botensial sylweddol i effeithio ar iechyd coed a choetiroedd yma yng Nghymru. Er mwyn helpu i geisio rheoli'r rhywogaethau anfrodorol goresgynnol yn effeithiol yn ogystal â phlâu a chlefydau, penderfynodd y llywodraethau datganoledig a DEFRA greu *Plant Biosecurity Strategy for Great Britain, 2014*[2].

Egwyddorion cyffredinol Strategaeth Bioddiogelwch Prydain 2014 yw 'gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar risg, codi mwy o ymwybyddiaeth a chynnwys y diwydiant.' Un o ganlyniadau'r strategaeth oedd creu cofrestr risg iechyd planhigion sy'n darparu sgôr risg ar gyfer plâu a chlefydau posibl a sefydledig yn dibynnu ar y bygythiadau maen nhw'n yn ei achosi. Mae'r sgôr yn ystyried pa mor debygol yw'r clefydau o sefydlu ac ymledu yn ogystal â'r effeithiau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Mae *P. ramorum* ar y gofrestr risg ers ei lansio yn 2014 ac mae angen cadw rheolaeth gydlynol er mwyn sicrhau manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol hirdymor.

Felly, mae strategaeth rheoli *P. ramorum* yn angenrheidiol i reoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy yng Nghymru ac yn cyflawni amcanion Deddf yr Amgylchedd Cymru 2016 a *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru 2015*[3].

Y Tîm Ymateb Gweithredol Phytophthora (PORT) sy'n gwneud penderfyniadau am reoli *P. ramorum* ar goed a'r amgylchedd ehangach, byddant yn darparu cyngor ac argymhellion strategol clir i Grŵp Llywio Iechyd Coed a Phlanhigion Cymru er mwyn rheoli rhywogaethau hysbys o Phytophthora yng nghoetiroedd Cymru o safbwynt dealltwriaeth wyddonol, y risgiau a'r rheolaeth gyffredinol ar y pathogenau hyn mewn coetiroedd.

Bydd Grŵp Llywio Iechyd Coed a Phlanhigion Cymru yn ystyried y cyngor hwn ac yn gwneud argymhellion a gaiff eu hystyried wedyn gan Weinidogion Cymru, a fydd yn penderfynu ar y polisi a'r ymateb strategol i achosion o blâu a chlefydau sy'n effeithio ar goed a phlanhigion yng Nghymru.

1 www,llyw.cymru/coetiroedd-i-gymru-strategaeth
2 www.assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/307355/pb14168-plant-health-strategy.pdf
3 www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/2/contents/enacted



Copyright Natural Resources Wales

## 3. Egwyddorion a diben

Mae'r clefyd *P. ramorum* wedi lledaenu'n gyflym ledled gwledydd Prydain ers canfod achos mewn coed llarwydd yn 2009, ac rydym yn derbyn y bydd yn dal i ymledu yng Nghymru. Diben y strategaeth hon, felly, yw arafu cyfradd yr haint a lledaeniad y clefyd yn ogystal ag ystyried yr effeithiau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen meithrin dull cyfannol o reoli'r clefyd. I wneud hyn, mae angen defnyddio gwybodaeth wyddonol, dull seiliedig ar risg, cydnabod yr adnoddau sydd ar gael a’r perygl o heintio yn seiliedig ar ddata hinsoddol, lleoliad y llarwydd a ffactorau eraill fel gwybodaeth leol.

Nod y Strategaeth *Phytophthora ramorum* ar gyfer Cymru yw:

- Lleihau effeithiau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol *P. ramorum*
- Defnyddio dull gwyddonol, seiliedig ar dystiolaeth, i reoli *P. ramorum*
- Defnyddio dull  seiliedig ar risg o wneud penderfyniadau
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid ar newidiadau sylweddol wrth reoli a deall pathogenau mewn coetiroedd
- Monitro sut mae’r clefyd yn lledaenu, cyhoeddi'r casgliadau a chodi ymwybyddiaeth o'r clefyd
- Sicrhau bod ymateb rheolwyr i goed llarwydd heintiedig yn addas i’r diben
- Annog y gwaith o reoli coetiroedd llarwydd yng Nghymru



# 4. Rheoleiddio

Caiff *P. ramorum* ei reoleiddio dan fesurau brys yr UE (2002/757/EC)[4], a'i weithredu yng Nghymru trwy Plant Health (Forestry) Order 2005 a Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) *2018*[5] sy'n rhestru *P. ramorum* fel organeb Atodlen 1 (plâu coed na chaniateir dod â hwy i Gymru na'u lledaenu o fewn Cymru). Cyflawnir y mesurau hyn trwy ddefnyddio hysbysiadau iechyd planhigion statudol (SPHNs) sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i gwympo/difa llarwydd heinitiedg erbyn dyddiad penodol a/neu atal symudiad deunydd wedi'i heintio.

# 5. Disease

## 5.1 Hanes

Organeb tebyg i ffwng sy'n effeithio ar ystod eang o rywogaethau (Atodiad A) yw *P. ramorum* ac mae effeithiau'r pathogen yn amrywio'n fawr yn dibynnu ar yr organeb letyol. Cafodd y pathogen ei ddarganfod am y tro cyntaf yn y DU yn 2002, mewn canolfan arddio yn Sussex, ac mae'n debyg iddo gael ei gyflwyno drwy'r fasnach blanhigion. Yn fuan wedyn, canfuwyd y pathogen ar blanhigion mewn parciau a gerddi, yn enwedig Rhododendron ponticum. Cafodd *P.ramorum* ei ddarganfod am y tro cyntaf yng Nghymru mewn amgylchedd nad yw'n goedwigaeth yn ystod hydref 2002. Yna, cafodd y clefyd ei ddarganfod ar rywogaethau llydanddail fel ffawydden a chastanwydden bêr ar safleoedd a oedd yn cynnwys rhododendron (Brasier, Et al., 2004). Yn 2009 daethpwyd o hyd i'r clefyd ar larwydd yn ne-orllewin Lloegr a'r flwyddyn ganlynol wedyn ar goed llarwydd yma yn ne Cymru. Ers hynny, mae'r clefyd wedi magu gwreiddiau ledled gorllewin Prydain ac Iwerddon ar wahanol rywogaethau o blanhigion a choed.

## 5.2 Bioleg

Ceir dwy linach wahanol o *P. ramorum*, EU1 ac EU2, sy'n bresennol yn y DU. Llinach EU1 sydd fwyaf cyffredin yn Ewrop tra bod yr EU2 wedi'i chyfyngu i dde-orllewin yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae dwy linach arall ar waith yng Ngogledd America hefyd, NA1 a NA2, sydd wedi arwain at achosion o 'farwolaeth sydyn y dderwen' yno. Mae presenoldeb dwy linach EU yn y DU yn awgrymu bod o leiaf dau achos ar wahân wedi taro yma.

Mae'r clefyd yn gallu heintio coed a phlanhigion gan arwain at achosion o ddail, canghennau a choesynnau sy'n gwywo sy'n symptomau cyffredin. Bydd y pathogen yn teithio o nodwyddau coed llarwydd i mewn i'r canghennau a thrwodd i'r prif goesyn sy'n heintio'r meinwe byw o dan y rhisgl gan achosi necrosis, briwiau a chanser a all arwain at orfod torri'r rhisgl a lladd y goeden yn y pen draw. Mae graddfa'r haint a'r necrosis yn dibynnu ar nifer o ffactorau biotig ac anfiotig fel; cyfradd sborynnu, y tywydd, y rhywogaethau a pha mor agos ydyw at ffynhonnell yr haint. Er bod *P. ramorum* yn lladd coed llarwydd nid yw'n effeithio ar y pren ei hun.

4 Penderfyniad y Comisiwn 2002/757/EC ar fesurau ffytoiechydol brys dros dro i rwystro cyflwyno a lledaenu *Phytophthora ramorum* i'r Gymuned

5 www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2018/1064/contents/made



## 5.3 Lledaeniad

Mae'r *P. ramorum* yn lledaenu drwy sborau. Ceir dau fath o sborau; sŵosborau sy'n weddol fyrhoedlog ac yn nofio mewn ffilmiau dŵr neu ddefnynnau a chlamydosborau sy'n sborau gorffwys sy'n galluogi goroesi'r clefyd trwy amodau anffafriol. Mae'n lledaenu'n bennaf trwy sŵosborau sy'n gweithredu'n fwyaf effeithlon mewn amodau aer cynnes, llaith ac sy'n cael eu cynhyrchu ar nodwyddau coed llarwydd ac organebau lletyol deiliog eraill. Mae'r clefyd wedi lledaenu'n sylweddol ers 2009 o ganlyniad i sborynnu o goed llarwydd. Cynhyrchir y sborau ar raddfa fawr ac maen nhw'n gallu rhyddhau hyd at 30-40m uwchlaw lefel y ddaear sy'n galluogi'r clefyd i ledaenu dros bellteroedd mawr. Diwedd yr haf a dechrau'r hydref yw'r adegau pwysicaf ar gyfer cynhyrchu sborau a'u lledaenu i goed eraill wedyn. Mae'r sborau a gynhyrchir yn amrywio'n fawr o rywogaeth i rywogaeth (Harris a Webber, 2016) ac efallai mai hyn sydd i gyfrif am y lledaeniad ysbeidiol a welir mewn clystyrau unffurf o larwydd o'r un oed.

Mae presenoldeb cyfnod cryptig o fewn cylch bywyd y clefyd yn cymhlethu pethau fwyfwy. Dim ond pan fod y goeden neu'r planhigyn yn dangos symptomau y gall arolygon gweledol weld arwyddion o'r clefyd. Mae'r cyfnod cryptig yn gohirio symptomau ac yn caniatáu i'r pathogen ymledu heb i arolygon ei weld; mae hyn wedi arwain at y dybiaeth y gallai'r clefyd fod 1-2 flynedd ar y blaen i unrhyw raglen graffu.

Un o'r prif ffactorau sy'n effeithio ar y gyfradd cyflymder y lledaeniad yw'r hinsawdd yma yng Nghymru, ac mae Prifysgol Caergrawnt wedi creu model hinsoddol sy'n dangos pa rannau o Gymru, yr Alban a Lloegr sydd mewn perygl mwyaf o ddal yr haint (Atodiad B). O'r holl wledydd, Cymru sydd â'r gyfran uchaf o dir yn yr ardal risg uchel.

## 5.4 Organebau lletyol terfynol/sy'n sborynnu

Mae dau fath o rywogaethau lletyol wedi'u heffeithio gan *P.ramorum* yn y DU (Atodiad A). Mae'r clefyd yn effeithio ar organebau lletyol terfynol, ond nid ydynt yn caniatáu i'r clefyd sborynnu a lledaenu. Gall organebau lletyol sy'n sborynnu gynhyrchu sborau, ond ar raddfa wahanol yn dibynnu ar y rhywogaeth , sy'n galluogi'r clefyd i ledaenu. Mae pob rhywogaeth llarwydd yn sborynnu'n helaeth drwy'r nodwyddau yn y canopi coed.

## 5.5 *Phytophthora ramorum* yng Nghymru

*P. ramorum* yw'r clefyd coed mwyaf difrifol sydd wedi effeithio ar goedwigoedd yng Nghymru. Er ei fod yn effeithio ar organebau lletyol eraill fel Rhododendron a Vaccinium mae maint yr effaith gymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd ar goed – yn enwedig llarwydd – yn llawer mwy. Mae Atodiad C ac Atodiad D yn dangos y clefyd wedi'i wasgaru'n ofodol ar goed ac yn yr amgylchedd ehangach hyd at ddiwedd 2018.

Ers 2010, mae rhaglen graffu flynyddol wedi'i chynnal ar larwydd, mewn coetiroedd, trwy gyfrwng arolygon o'r awyr ac ar y tir. Cafodd ei harwain gan y Comisiwn Coedwigaeth i ddechrau, ac mae bellach yn cael ei goruchwylio gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion wedi cynnal arolygon o rywogaethau eraill yn yr amgylchedd ehangach, y tu allan i goetiroedd, yng Nghymru.

Mae'r *Strategaeth Rheoli Phytophthora* ar waith ers 2010, ac wedi darparu cyfeiriad strategol i reolaeth weithredol y clefyd.

Yn 2014, fe wnaeth Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid adolygu’r strategaeth a chyflwyno dau barth rheoli’r clefyd: Parth Craidd y Clefyd (CDZ) a Pharth Cyfyngu ar y Clefyd (DLZ) fel rhan o’r strategaeth rheoli clefydau ddiwygiedig a gyflwynwyd yn 2014. Roedd yr adolygiad yn ystyried dealltwriaeth gwyddonwyr o'r clefyd ar y pryd, gwybodaeth newydd am ei ledaeniad ac effeithiau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y strategaeth reoli. Yn y parth CDZ, ni fyddai unrhyw derfyn amser ar dorri/cwympo coed wedi’u heintio; byddai hyn yn ein galluogi i ganolbwyntio adnoddau yn y parth DLZ lle’r oedd y clefyd yn absennol ar y cyfan. Pe bai achos o’r haint yn cael ei ganfod yn DLZ, yna byddai Hysbysiadau Iechyd Planhigion Statudol a Llythyrau Hysbysu gyda therfynau amser yn dal i gael eu cyhoeddi. Mae rhagor o wybodaeth am sut mae’r clefyd wedi effeithio ar weddill gwledydd Prydain a pha strategaethau rheoli a ddefnyddiwyd gan lywodraethau datganoledig eraill ar gael yn Atodiad E.

Yn sgil datblygiad y clefyd yn 2017/18 a 2018/19, roedd pawb yn cytuno bod angen ailwampio’r strategaeth reoli ar gyfer *P. ramorum* a datblygu cynllun gweithredu yn seiliedig ar y wybodaeth a’r arferion diweddaraf. Fel rhan o'r broses o adolygu'r CDZ, daeth yn amlwg bod sefyllfa'r clefyd a'n dealltwriaeth ohono wedi newid yn aruthrol ers cynhyrchu’r strategaeth wreiddiol yn 2014. Arweiniwyd yr adolygiad o strategaeth rheoli’r clefyd gan Lywodraeth Cymru a chafwyd ymgynghoriad sylweddol â rhanddeiliaid yng nghyd-destun y newidiadau yng Nghymru a phwysau posib gan glefydau a phlâu eraill e.e. *Ips typographus*.

Wrth i’r clefyd ledaenu, roedd angen addasu’r dull o reoli *P. ramorum*. Mae’r cynllun gweithredu newydd yn disgrifio'n fanwl y gweithrediadau a'r prosesau parhaus sy'n cael eu cyflwyno er mwyn arafu lledaeniad y clefyd mewn llarwydd ledled Cymru.



# 6. Cynllun Gweithredu *Phytophthora ramorum* ar gyfer Cymru 2019

## 6.1 Crynodeb

Mae'r cynllun gweithredu yn amlinellu'r dulliau a'r gweithrediadau rheoli sy'n cael eu cymryd yng Nghymru i reoli lledaeniad y clefyd. Mae'r mesurau hyn yn dilyn yr egwyddorion a'r amcanion a nodir yn Strategaeth *Phytophthora ramorum* ar gyfer Cymru.

Bydd Tîm Ymateb Gweithredol Phytopthora yn adolygu'r Cynllun Gweithredu a'r terfynau CDZ bob blwyddyn, gan gynnwys:

- Pa mor effeithiol yw'r broses o reoli lledaeniad *P.ramorum* a'r ffiniau CDZ a DLZ
- Newid yn yr adnoddau sydd ar gael
- Newid ym mhatrwm y clefyd
- Gwybodaeth wyddonol newydd am y clefyd
- Dadansoddi effeithiolrwydd ffiniau CDZ

Bydd argymhellion yn cael eu trosglwyddo i Grŵp Llywio Iechyd Coed a Phlanhigion Cymru i'w cymeradwyo. Rydym wedi atodi amserlen weithredol *Phytophthora ramorum* ar larwydd yng Nghymru (Atodiad G) er mwyn darparu adolygiad cynhwysfawr o'r gwaith sy'n ein galluogi i gyflawni'r Strategaeth *Phytophthora ramorum* ar gyfer Cymru. Dim ond cynllun gweithredu ar gyfer llarwydd sydd ar gael ar hyn o bryd oherwydd yr effaith graddfa fawr ar rywogaethau a oedd yn cwmpasu tua 24,000 hectar o dir yn 2011.

## 6.2 Goruchwyliaeth

Fel rhan o'r broses barhaus o reoli clefydau, cynhelir gwaith goruchwyliaeth i weld a yw'r clefyd yn lledaenu. Mae hyn nid yn unig yn sail ar gyfer cyflwyno Hysbysiadau Iechyd Planhigion Statudol ond hefyd er mwyn llywio strategaethau rheoli a chynlluniau gweithredu. Mae CNC yn cyflwyno adroddiadau sefyllfa rheolaidd yn seiliedig ar arolygon o'r awyr ac ymweliadau safle. Cyflwynir yr adroddiadau hyn i Dîm Ymateb Gweithredol Phytophthora a Grŵp Llywio Iechyd Coed a Phlanhigion Cymru. Mae Tabl 1 yn dangos y ffigurau a gasglwyd gan CNC ar ddiwedd pob blwyddyn ac yn dangos lledaeniad hysbys y clefyd yng Nghymru.

Tabl 1. Cyfradd cynnydd ardaloedd dan Hysbysiad Iechyd Planhigion Statudol (SPHN) neu Lythyr Hysbysu*

| Blwyddyn | Ardaloedd o dan SPHN y flwyddyn (ha) | Ardal gronnus o dan SPHN (ha) |
|---|---|---|
| 2010 | 836 | 836 |
| 2011 | 476 | 1311 |
| 2012 | 1478 | 2788 |
| 2013 | 5285 | 8074 |
| 2014 | 508 | 8581 |
| 2015 | 109 | 8690 |
| 2016 | 199 | 8888 |
| 2017 | 1273 | 10162 |
| 2018 | 1028 | 11190 |

*Data o Adroddiadau Sefyllfa CNC, 2010-2018

## 6.3 Hysbysiadau Iechyd Planhigion Statudol a Llythyrau Hysbysu

Hysbysiadau Iechyd Planhigion Statudol (Hysbysiadau Iechyd) yw'r dull a ddefnyddir i orfodi'r broses o ddifa coed ag organebau lletyol. Mae'r ardal o gwmpesir gan bob Hysbysiad Iechyd (SPHN) yn dibynnu ar sawl ffactor gan gynnwys topograffi, rhywogaethau a ffiniau gweithredu priodol. Mae gan bob Hysbysiad Iechyd isafswm pellter o ran parthau clustogi, i'w trin, o'r coed wedi'u heintio. Defnyddiwyd tystiolaeth Forest Research (Joan Webber, Et al., 2010) i bennu pellter priodol ar gyfer pob rhywogaeth. Mae heintiau llarwydd mewn coetir yn mynnu bod pob rhywogaeth o goed llarwydd o fewn parth clustogi 100m metr o'r pwynt heintio yn cael eu trin. Yn achos sbriwsen Sitka mewn coetir, mae angen trin y rheiny o fewn parth clustogi 20m o bwynt yr haint, tra bydd triniaethau pob rhywogaeth organeb letyol arall mewn amgylcheddau coedwigaeth a di-goedwigaeth yn cael eu hasesu fesul achos.

Ni ellir symud unrhyw foncyffion neu gynhyrchion eraill â rhisgl o rywogaethau penodol sy'n rhan o broses rheoli safle â Hysbysiad Iechyd Planhigion Statudol heb drwydded symud priodol i safleoedd sydd hefyd wedi'u trwyddedu i brosesu'r deunydd. Y Comisiwn Coedwigaeth sy'n awdurdodi trwyddedau symud a phrosesu *P.ramorum* i fusnesau yng Nghymru, a ran Llywodraeth Cymru.

Er mai cyfrifoldeb Gweinidogion Cymru yw dyletswyddau iechyd coed, mae rhai swyddogaethau wedi'u dirprwyo i CNC sy'n cyflawni dyletswyddau gweithredol. Mae CNC yn cyhoeddi 'Hysbysiadau Statudol' ar ganfyddiadau P. ramorum, ac eithrio ar Ystad Coetiroedd Llywodraeth Cymru (WGWE). Oherwydd perchnogaeth gyfreithiol y tir, bydd CNC cyhoeddi 'Llythyr Statudol' os canfyddir achos o *P. ramorum* ar Ystad Coetiroedd Llywodraeth Cymru. Mae gofynion Hysbysiad Iechyd Planhigion Statudol a Llythyr Hysbysu yr un fath, ac yn darparu cyfarwyddiadau i berchnogion/rheolwyr tir.

## 6.4 Triniaeth ar ôl derbyn Llythyr SPHN neu Lythyr Hysbysu

Mae dau opsiwn ar gyfer trin coed llarwydd wedi'u heintio:

1. Cynaeafu neu ddinistrio'r goeden cyn sborynnu

2. Lladd y coed a'u gadael i sefyll cyn sborynnu

Opsiwn 1 yw'r driniaeth a ffefrir ar gyfer y clefyd, gan ei fod yn fwy effeithiol wrth ladd coed a dim ond angen un driniaeth i leihau lledaeniad posibl y clefyd a chynaeafu'r pren.

Mae sawl ffordd o gynnal opsiwn 2 e.e. chwistrellu'r coesyn, ond mae cyfradd llwyddiant lladd coed yn effeithiol ag un driniaeth rhag iddynt sborynnu yn amrywio. Dim ond os nad yw opsiwn 1 yn bosib y dylid ei ddefnyddio. Mae angen trwydded cynaeafu ar wahân i ddifa coed a'u gadael i sefyll, a bydd hyn yn cynyddu costau. Mae coed marw hefyd yn peri risg uwch i'r cyhoedd e.e. canghennau'n cwympo a pherygl i'r rhai a fydd yn torri'r coed. Dylid ystyried y peryglon dilynol hyn wrth gynllunio i drin llarwydd heintiedig.

## 6.5 Ffiniau Parth Craidd y Clefyd


Mae maint ffiniau'r parth craidd y clefyd yn seiliedig ar sawl ffactor:

- Lefel yr haint yn yr ardal (Atodiad F )
- Perthynas yr ardal â'r model hinsoddol
- Rheoli adnoddau
- I ba gyfeiriad mae'r clefyd yn lledaenu
- Effeithiau posib rheoli'r clefyd ar yr amgylchedd
- Effeithiau posib rheoli'r clefyd ar gymunedau lleol
- Lleoliad clystyrau heintus o larwydd
- Dealltwriaeth o gam cryptig y clefyd

Fel rhan o'r adolygiad cyffredinol, bydd Cymru bellach yn cael ei rhannu'n 3 pharth clefyd gwahanol (Map 1). Trafodwyd y rhain gyda chynrychiolwyr y sector preifat a CNC yn Nhîm Ymateb Gweithredol Phytophthora, a chytunwyd arnynt gan Grŵp Llywio Iechyd Coed a Phlanhigion Cymru a'u cymeradwyo gan Weinidogion Cymru. Mae gwybodaeth fanylach am reoleiddio a gweithrediadau o fewn parthau CDZ1, CDZ2 a'r DLZ ar gael gan CNC.

Nod y CDZ newydd yw arafu cyfradd yr haint i'r DLZ gan fod llawer iawn o larwydd o hyd yng ngogledd-orllewin a dwyrain y wlad. Gall ymateb cyflym i heintiau helpu i arafu cyfradd lledaenu'r DLZ a chadw'r llarwydd sy'n dal i fodoli yma yng Nghymru.

## Map 1. Pennu terfynau ffiniau Parth Craidd y Clefyd.




Phytophthora ramorum
Disease Management Zones (DMZs)

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Reproduced by permission of Ordnance Survey on behalf of HMSO. © Crown copyright and database right 2019. All rights reserved Welsh Government. Licence number 100017916.

Date: 2019.01.31

Tabl 2. Dadansoddiad o ardaloedd llarwydd hysbys yn y 3 pharth clefydau gwahanol*

| Parth Rheoli Clefydau | Amcangyfrif o arwynebedd llarwydd (ha) |
|---|---|
| CDZ1 | 7164 |
| CDZ2 | 5053 |
| DLZ | 10888 |
| Cyfanswm | 23105 |

*Defnyddiwyd data o sawl ffynhonnell i greu'r set ddata hon. Dyma'r amcangyfrif gorau sydd gennym o faint o goed llarwydd sydd yng Nghymru ar hyn o bryd.

### 6.5.1 Parth Craidd y Clefyd 1 (CDZ1)

Mae'r ardal hon o Gymru yn disodli'r parth CDZ cyfredol sydd wedi ei ddynodi yn CDZ ers 2014. Mae'n cynnwys cyfradd uchel o'r haint; clystyrau cyffiniol mawr o goed llarwydd mewn coetiroedd, cyfran helaeth o'r coetir mewn ardal risg uchel yn ôl model risg hinsoddol Caergrawnt, a chyfran uchel o larwydd heintiedig Cymru.

**Camau gweithredu**

Yn CDZ1, bydd arolygon cyfyngedig o'r awyr ac ar y tir yn cael eu cynnal, gan ganolbwyntio'n bennaf ar rywogaethau a chynefinoedd eraill er mwyn cadw golwg ar unrhyw newid o ran sut mae'r clefyd yn lledaenu. Bydd y cyfrifoldeb o reoli'r llarwydd yn disgyn ar ysgwyddau'r tirfeddianwyr a'r rheolwyr tir yn bennaf. Bydd llarwydd yn cael eu harchwilio ar ôl derbyn ceisiadau am drwyddedau torri coed, a bydd Hysbysiad Iechyd Planhigion Statudol (m) neu Lythyr Hysbysu yn cael eu cyflwyno yn achos safleoedd wedi'u heintio cyn y gellir dechrau ar unrhyw waith. Noder **na fydd unrhyw derfyn amser ar gyfer gwaith trin** a bennwyd. Amcangyfrifir bod Hysbysiadau Iechyd Planhigion Statudol wedi'u cyflwyno i'r rhan fwyaf o larwydd o fewn CDZ1. Ers cyhoeddi strategaeth Phytophthora 2014, mae gwaith goruchwylio a thrin llarwydd wedi canolbwyntio ar ffin CDZ1 er mwyn ceisio lleihau'r perygl i'r clefyd ledaenu o glystyrau heintiedig yn CDZ1. Mae nifer y coed llawrydd yn CDZ1 wedi gostwng, ond oherwydd dwysedd y clefyd a'r adnoddau sydd ar gael, mae angen cynllun amgen i gadw'r cyfan dan reolaeth. Dylid dilyn canllawiau bioamrywiaeth cyfredol wrth weithio yn y parth hwn. Cynaeafu deunyddiau heintiedig fydd y rhan fwyaf o'r gweithrediadau rheoli sy'n digwydd ym mharth CDZ1. Mae'r broses o symud deunyddiau o'r safle ac yna'i brosesu yn cael ei rheoleiddio at ddibenion bioddiogelwch, ac er mwyn atal *P. ramorum* rhag lledaenu drwy'r llwybr hwn.

### 6.5.2 Parth Craidd y Clefyd 2 (CDZ2)

Dynodwyd yr ardal hon o Gymru yn CDZ ym mis Mawrth 2019. Fel CDZ1, mae'n cynnwys clystyrau heintiedig o larwydd mewn coetiroedd ar goedwigoedd preifat a chyhoeddus yn ogystal â thir fferm, ac wedi'i leoli yn yr ardaloedd risg uchel yn ôl model risg hinsoddol Caergrawnt.

**Camau gweithredu**

Yn CDZ2, bydd arolygon penodol o'r awyr yn cael eu cynnal, gan ganolbwyntio'n bennaf ar ardaloedd cyfagos i ffin y DLZ. Bydd y cyfrifoldeb dros reoli'r llarwydd yn gorwedd yn bennaf gyda'r tirfeddianwyr a'r rheolwyr tir. Caiff llarwydd eu harchwilio ar ôl derbyn ceisiadau am drwyddedau torri coed, a bydd Hysbysiad Iechyd Planhigion Statudol neu Lythyr Hysbysu yn cael eu cyflwyno yn achos safleoedd wedi'u heintio cyn dechrau ar unrhyw waith. Noder y **bydd terfyn amser o 3 blynedd** ar gynnal gwaith rheoli. Mae hyn yn caniatáu digon o amser i gynllunio'n briodol, ymgysylltu â rhanddeiliaid a chynnal gweithrediadau mewn modd a fydd yn lleihau'r effaith ar gymunedau a busnesau lleol, yr amgylchedd, ac yn parchu ymrwymiadau gweithredol parhaus. Mae'r broses o symud deunyddiau o'r safle ac yna prosesu yn cael ei rheoleiddio at ddibenion bioddiogelwch, ac er mwyn atal *P. ramorum* rhag lledaenu drwy'r llwybr hwn. Gwaith cynaeafu fydd yn digwydd yn bennaf ar safleoedd CDZ2, er y bydd defnydd cyfyngedig o ddulliau trin er mwyn cyflawni materion penodol ar safleoedd unigol.

## 6.5.3 Parth Cyfyngu ar y Clefyd (DLZ)

Mae'r ardal hon yn cynnwys gweddill Cymru sydd â lefelau cyfyngedig o'r haint o gymharu â pharthau CDZ. Mae cyfran fawr o'r ardal hon yn cael ei hystyried yn un risg isel yn ôl model hinsoddol Prifysgol Caergrawnt. Er bod yna blanhigfeydd llarwydd yr ardal hon, rydym yn gobeithio y bydd amodau hinsoddol llai addas a phroses o reoli clystyrau heintiedig yn gyflym yn golygu y bydd y clefyd yn lledaenu'n tipyn arafach drwy'r DLZ. Mae clystyrau o goed llarwydd yn aml wedi'u lleoli'n fwy gwasgaredig yng nghefn gwlad, e.e. lleiniau cysgodi ffermydd, ac felly'n lleihau'r perygl posib o ledaenu'r haint.

**Camau gweithredu**

Cynhelir arolygon o'r awyr yn y DLZ gan dargedu llwybrau heintio posib o achosion mwy o'r clefyd yn y parthau CDZ. Bydd CNC yn cynnal gwybodaeth leol, data cyfredol am ledaeniad yr haint a data'r tywydd, ac yn arolygon tir. Os cadarnheir bod safleoedd wedi'u heintio, bydd staff rheoleiddio Cyfoeth Naturiol Cymru ar y cyd â'r tirfeddiannwr yn cyhoeddi Hysbysiad Iechyd Planhigion Statudol neu Lythyr Hysbysu a **fydd yn pennu'r gweithrediadau trin gofynnol i'w cyflawni o fewn amserlen benodol.**

**Ceisiadau trwyddedau cwympo coed a gyflwynwyd yn y gaeaf ar gyfer pob rhan o Gymru**

Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn archwilio pob clwstwr o goed llarwydd cyn ei chymeradwyo ar gyfer cwympo coed. Nid yw'r symptomau'n amlwg yn y gaeaf ac felly nid yw'n bosib eu harchwilio. Yn achos ceisiadau a gyflwynir ar ôl 30 Medi a chyn 1 Ebrill, bydd perchennog/rheolwr y tir yn cael dewis naill ai:

1. Gohirio'r cais tan fod modd archwilio'r llarwydd pan mae'r symptomau'n weladwy

2. Gofyn am Hysbysiad cyfyngu ar symud (SPHN (mr))

3. Tynnu'r llarwydd o'r cais

Os na fydd cytundeb ar unrhyw un o'r opsiynau, bydd y cais yn cael ei wrthod. Yn ystod yr haf, bydd ceisiadau'n cael eu rhoi ar y llwybr carlam a'u hasesu cyn gynted â phosib. Os mai llarwydd yw'r brif rywogaeth ar geisiadau am drwydded cwympo coed, ni fydd angen llunio 'Cofrestr Gyhoeddus'.

## 6.6 Dulliau/Grantiau

Mae Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 yn cynnwys amrywiaeth o gymorth ariannol i fusnesau gwledig, gan gynnwys cynllun Glastir – Adfer Coetir. Mae'r cynllun hwn yn cynnig cymorth i berchnogion coetir â llarwydd ar eu tir i'w hannog i gwympo coed llarwydd fel cam ataliol ac ailstocio ar ôl cynaeafu. Mae hefyd yn cynnig grantiau tuag at waith cyfalaf fel ffensio, ailstocio a gweithrediadau cysylltiedig lle ceir clystyrau o goed llarwydd a hyd at 50% o rywogaethau nad ydynt yn llarwydd.

## 6.7 Plâu eilaidd

Mae *P. ramorum* hefyd yn cynnig cyfleoedd i blâu eilaidd fel Ips cembrae, y chwilen rhisgl llarwydd ac organebau eraill sy'n ymosod ar goed a phlanhigion sydd naill wedi neu ar fin marw. Mae Forest Research yn cadw gwyliadwriaeth ar sut gall clefyd *P. gall ramorum* gynyddu'r potensial am achos newydd o'r haint neu ddatblygu pla neu glefyd arall.

# 7. Llyfryddiaeth


Brasier, C. M., Denman, S., Brown, A. & Webber, J. F. (2004) Sudden oak death (*Phytophthora ramorum*) discovered on trees in Europe. Mycological Research 108, 1107-1110.

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Harris, A. R., Webber, J. F. (2016). Sporulation potential, symptom expression and detection of *Phytophthora ramorum* on larch needles and other foliar hosts. Plant Pathology 65 (9), 1441-1551.

McDermott, A. R. R., Webber, J. F. & Harris, A. (2017). Insights into the Sporulation potential of *Phytophthora ramorum* on different conifer hosts. Farnham, UK: Forest Research UK.

National Forest Inventory. 2011. Forest Research.

*Phytophthora ramorum* Situation Report Summary, 2018. Cyfoeth Naturiol Cymru.

Plant Health (Forestry) Order 2005

Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2018

Protecting Plant Health: A Plant Biosecurity Strategy for Great Britain, 2014. Department for Environment, Food and Rural Affairs.

Ramorum (on larch) Action Plan for Scotland, 2018. Forestry Commission Scotland.

Strategy for *Phytophthora ramorum* in Scotland for 2015-2017. Llywodraeth yr Alban.

Tree Health Management Plan. 2014. Department for Environment Food and Rural Affairs.

Strategaeth Iechyd Coed. 2014, Llywodraeth Cymru.

Webber, J. F., Turner, J., & Jennings, P., 2010. Report on research undertaken between October 2009 to March 2010, on *Phytophthora ramorum* incited dieback on larch (*Larix kaempferi*). Farnham, UK: Forest Research UK.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Coetiroedd i Gymru. 2018. Llywodraeth Cymru.


## Atodiad A. Tabl lefelau sborynnu organebau lletyol a thriniaethau rheoli.

Mae'r strategaeth reoli hon yn canolbwyntio ar larwydd am y rhesymau a amlinellir yn y strategaeth. Fodd bynnag, bydd rhaglenni cadw gwyliadwriaeth o'r awyr ac ar y ddaear yn monitro rhywogaethau eraill hefyd os oes achosion unigol o symptomau P. ramorum. Mae'r tabl isod yn crynhoi gallu'r organebau lletyol i sborynnu (McDermott, Et al., 2017).


| Rhywogaethau | Math o organeb letyol | Lefelau sborynnu |
|---|---|---|
| LLYDANDDAIL | | |
| *Acer pseudoplatanus* | Sborynnu | Isel |
| *Aesculus hippocastanum* | Sborynnu | Isel-canolig |
| *Castanea sativa* | Sborynnu | Canolig-uchel |
| *Corylus avellana* | Sborynnu | Isel iawn |
| *Fagus sylvatica* | Terfynol | - |
| *Fraxinus excelsior* | Sborynnu | Canolig |
| *Nothofagus obliqua* | Terfynol | - |
| *Quercus cerris* | Sborynnu | Canolig |
| *Quercus ilex* | Sborynnu | Canolig |
| *Quercus petraea* | Sborynnu | Canolig |
| *Quercus robur* | Sborynnu | Canolig |
| *Salix caprea* | Terfynol | - |
| CONIFFERAU | | |
| *Abies grandis* | Sborynnu | Canolig |
| *Abies procera* | Sborynnu | Canolig |
| *Chamaecyparis lawsonianaa* | Terfynol | - |
| *Larix decidua* | Sborynnu | Uchel |
| *Larix kaempferi* | Sborynnu | Uchel iawn |
| *Larix x marschlinsii* | Sporulating | Uchel |
| *Ilex aquifolium* | Terfynol | - |
| *Picea sitchensis* | Sborynnu | Isel |
| *Pseudotsuga mensiezii* | Sborynnu | Isel iawn |
| *Taxus baccata* | Sborynnu | Isel |
| *Tsuga heterophylla* | Sborynnu | Isel |
| PLANHIGION | | |
| *Rhododendron ponticum* | Sborynnu | Canolig |
| *Umbellularia californica* | Sborynnu | Isel |
| *Vaccinium myrtillus* | Sborynnu | Isel |

## Atodiad B. Cyfartaledd 5 mlynedd o addasrwydd amgylcheddol ar gyfer P. ramorum, yn seiliedig ar leithder a thymheredd, a data arbrofol.


Comisiynwyd y map hwn gan DEFRA a'i gynhyrchu gan y Cambridge Epidemiology and Modelling Group.



# Atodiad C. Lleoliadau pob Hysbysiad Iechyd Planhigion Statudol a gyflwynwyd yng Nghymru hyd at Chwefror 2019.



# Atodiad D. Lleoliad safleoedd *P.ramorum* di-goedwigaeth yn yr amgylchedd ehangach ledled Cymru a Lloegr.




This map is based upon Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Statutory Office © Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceeding. Defra 100018880, 2009.

# Atodiad E. *Phytophthora ramorum* y tu allan i Gymru.

## Lloegr

Mae DEFRA wrthi'n diweddaru Strategaeth Phytophthora Lloegr ar hyn o bryd. Mae DEFRA Tree Health Management Plan, 2014 yn amlinellu'r strategaeth iechyd coed eang ac yn mynd i fwy o fanylion ar reoli *P. ramorum* yn Lloegr. Mae Comisiwn Coedwigaeth Lloegr ac APHA wrthi'n cynnal arolygon tir ac awyr yn Lloegr hefyd.

Mewn cymhariaeth, Lloegr sydd â'r swm lleiaf o dir a ddosbarthwyd fel un risg uchel yn ôl model Prifysgol Caergrawnt, a'r gyfran isaf o goed llarwydd o gymharu â chyfanswm yr arwynebedd coetiroedd, sef tua 3.6% (National Forest Inventory, 2011). Nid ydynt wedi mabwysiadu Parth Rheoli neu Barth Craidd y Clefyd fel yng Nghymru a'r Alban. Mae'r rhan fwyaf o'r haint wedi'i leoli yn Ne-orllewin Lloegr ond ceir ardaloedd sylweddol o larwydd heintiedig yn Ardal y Llynnoedd a Cumbria hefyd.


## Yr Alban

Ysgrifennwyd a chyhoeddwyd Strategy for *Phytophthora ramorum* in Scotland for 2015-17 gan Lywodraeth yr Alban. Crëodd Comisiwn Coedwigaeth yr Alban Action Plan for *P. ramorum* sy'n amlinellu'r camau rheoli sy'n digwydd yno ar hyn o bryd i arafu lledaeniad y clefyd.

Cafodd *P. ramorum* ei ganfod am y tro cyntaf ar larwydd Japan yn 2010 yng ngorllewin yr Alban. Ardal Dumfries a Galloway oedd prif leoliad y clefyd, cyn i'r haint gynyddu ar ôl 2012. Arweiniodd hyn at greu'r Parth Rheoli sy'n cyfyngu ar symud deunyddiau heintiedig. Nid yw Arolygwyr Iechyd Coed Comisiwn Coedwigaeth yr Alban yn cyflwyno Hysbysiadau Iechyd Planhigion Statudol mwyach ar gyfer coed heintiedig a ganfuwyd o fewn y parth rheoli. Yn 2018, datblygodd y clefyd yn sylweddol y tu allan i'r parth rheoli ac ar hyd arfordir y gorllewin hyd at yr Ucheldiroedd sy'n adlewyrchu rhagolygon y model risg hinsoddol a grëwyd gan Brifysgol Caergrawnt.

## Atodiad F. Lleoliadau Hysbysiadau Iechyd Planhigion Statudol yng Nghymru a ffiniau rheoli'r clefyd.

### Phytophthora ramorum
### Disease Management Zones and Statutory Notices




Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

1:1,000,000

© Crown copyright. All rights reserved.
Natural Resources Wales, 100019741, 2013.
© Hawlfraint y Goron. Cedwir pob hawl.
Cyfoeth Naturiol Cymru, 100019741, 2013.

## Atodiad G. Amserlen weithredol ar gyfer Phytophthora ramorum ar goed llarwydd yng Nghymru.

| Prif flaenoriaeth | Camau gweithredu | Dull | Sut | Blaenoriaeth | Risgiau | Pryd | Dan arweiniad | Ystyriaethau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Goruchwylio a monitro | Monitro lledaeniad *P. ramorum* ar larwydd | Arolygon o'r awyr ac ar y ddaear, wedi'u targedu | CNC | U | Adnoddau cyfyngedig<br>Cyllideb | Mawrth-Medi | CNC | Nifer yr hediadau<br>Bydd hediadau wedi'u targedu yn cynnwys pennu terfynau ffiniau CDZ |
| | | Archwilio pob cais am drwydded cwympo coed ac adroddiadau eraill o goed dan amheuaeth | CNC | U | Adnoddau cyfyngedig<br>Cyllideb | Mawrth-Medi | CNC | Mwy o hyfforddiant iechyd planhigion i staff CNC e.e. Swyddogion Coetir<br>Faint o waith yn dibynnu ar ledaeniad y clefyd |
| | | Cynnal gallu diagnostig | CNC | U | Adnoddau cyfyngedig<br>Cyllideb | Gydol y flwyddyn | CNC | Faint o waith yn dibynnu ar ledaeniad y clefyd |
| | Archwilio planhigfeydd a'r amgylchedd ehangach | APHA | Archwiliadau masnach APHA – gofynion UE<br>Goruchwylio'r amgylchedd ehangach – gofynion UE<br>Monitro safleoedd hysbys ag achos o'r clefyd | U | Adnoddau cyfyngedig<br>Cyllideb | Gydol y flwyddyn | APHA | APHA sy'n ymdrin ag iechyd planhigion yng Nghymru a Lloegr felly mae angen dull Prydain gyfan o fynd i'r afael â'r perygl i fasnach planhigion |
| | Rhannu data | Protocol CNC ac APHA | Cyfathrebiadau CNC ac APHA | U | Adnoddau cyfyngedig<br>Systemau TGCh | Gydol y flwyddyn | CNC/APHA | Mae rhannu data rhwng sefydliadau yn llywio gwaith goruchwylio a gwaith dilynol |

| Prif flaenoriaeth | Camau gweithredu | Dull | Sut | Blaenoriaeth | Risgiau | Pryd | Dan arweiniad | Ystyriaethau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ymchwil | Modelu epidemioleg pellach | Mae Prifysgol Caergrawnt wedi datblygu model deinamig hynod amrywiol yn seiliedig ar wybodaeth wyddonol a data a gasglwyd yn y maes | Contract DEFRA gyda Phrifysgol Caergrawnt | U | Data ar gael<br>Cyfathrebu | Gydol y flwyddyn | DEFRA | Cymru i gyfrannu'n llawn at adolygiad blynyddol o'r model |
| | Prosiectau Meistr synhwyro o bell | Traethawd Ymchwil Gradd Meistr mewn synhwyro o bell o Brifysgol Aberystwyth | Prifysgol Aberystwyth | C | Ansawdd ffotograffau o'r awyr<br>Cyllideb | Gydol y flwyddyn | Llywodraeth Cymru / Prifysgol Aberystwyth | Os yw'n gywir, gall fod yn ffordd gosteffeithiol o ddadansoddi'r ardal o goed llarwydd sy'n dal i sefyll a'u lleoliad |
| | Treialu dulliau triniaeth gwahanol | Llain arbrofol i fesur pa mor effeithiol yw chwistrellu coesynnau | Prosiect CNC | C | N/A | Cwblhawyd | CNC | Profi effeithiolrwydd chwistrellu coesynnau yng nghyd-destun rheoli'r clefyd |
| | Nodi technegau goruchwylio ac adnabod newydd posib | Briff gwylio ar ddatblygiadau ymchwil/ masnachol | Rhwydweithio gyda FR a'r llywodraethau datganoledig | C | N/A | Gydol y flwyddyn | Holl bartïon | Mae technoleg newydd yn aml yn ddrud iawn. Angen paratoi dadansoddiad risg costau ar gyfer WTPHSG |
| | Adnabod *P. ramorum* mewn llarwydd a llus cyn symptomau | 2 brosiect PhD KESS | Prifysgol Aberystwyth | C | N/A | 2019/20 | Llywodraeth Cymru/ Prifysgol Aberystwyth | Rhaid i fyfyrwyr gyflwyno eu gwaith<br>Oes rhagor o waith ymchwil i'w wneud yn y maes? |

| Prif flaenoriaeth | Camau gweithredu | Dull | Sut | Blaenoriaeth | Risgiau | Pryd | Dan arweiniad | Ystyriaethau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mesurau Proffylactig | Annog pawb i fod yn barod<br>• Gweithwyr coedwigaeth proffesitynol<br>• Perchnogion coetiroedd<br>• Planhigfeydd | Codi ymwybyddiaeth o *P. ramorum* mewn fforymau cyhoeddus, llwybrau masnach a pharatoi canllawiau ac arferion gorau ar gyfer y diwydiant | Canllawiau ar y we gan CNC/FCE<br>Cyngor gan CNC | U | Adnoddau cyfyngedig<br>Cyllideb | Gydol y flwyddyn | FCE | Seiliedig ar wybodaeth drawsffiniol |
| | Cymorth grant | Glastir – Cynllun Adfer Coetir | Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 | U | Adnoddau cyfyngedig ar gael | Agor drwy ffenestri a gyhoeddir ar wefan Llywodraeth Cymru | Llywodraeth Cymru | Ynghlwm wrth gyfnod ymgeisio penodol |
| | Cynnal ymwybyddiaeth o fioddiogelwch | Ategu canllawiau a safbwyntiau clir CNC/ Llywodraeth Cymru | Canllawiau ar y we gan CNC<br>Cyngor gan CNC | U | Adnoddau cyfyngedig<br>Cyllideb | Gydol y flwyddyn | FCE/ Llywodraeth Cymru | Blwyddyn Ryngwladol Iechyd Planhigion 2020<br>Ymgyrchoedd ‘Leave it in the forest’ a ‘Keep it Clean’<br>Cyhoeddi strategaeth newydd ar fioamrywiaeth planhigion y DU yn 2020 |
| | Marchnata pren | Galluogi’r farchnad i ymateb i newidiadau cynhyrchu | Rhagolygon cynhyrchiant | C | Adnoddau cyfyngedig<br>Cywirdeb data | Gydol y flwyddyn | CNC | Y gallu i adweithio’n broffylactig yn dibynnu ar ledaeniad y clefyd ac a yw ym mharthau CDZ1, CDZ2 neu DLZ |

| Prif flaenoriaeth | Camau gweithredu | Dull | Sut | Blaenoriaeth | Risgiau | Pryd | Dan arweiniad | Ystyriaethau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mesurau adweithiol | Atal achosion newydd trwy blanhigion heintiedig | Cynllun ardystio ac archwiliadau mewn planhigfeydd a phorthladdoedd | Camau statudol ac Arolygwyr Iechyd Planhigion APHA | U | Adnoddau cyfyngedig<br>Systemau olrhain | Gydol y flwyddyn | APHA | Mae'r Offeryn Statudol wedi arwain at leihad yn nifer y coed llarwydd sy'n cael eu tyfu ym mhlanigfeydd y DU |
| | Camau ynysu'r haint | Gorchymyn difa coed llarwydd sydd wedi'u heintio | Camau a chanllawiau statudol | U | Adnoddau cyfyngedig | Mawrth-Medi | CNC | 3 pharth rheoli gwahanol ar gyfer Cymru, gweler y strategaeth uchod am wybodaeth |
| | | Cyfyngu symudiadau coed llarwydd heintiedig i broseswyr cofrestredig | Camau a chanllawiau statudol | U | Adnoddau cyfyngedig | Gydol y flwyddyn | FCE | Mae tua 70 o broseswyr wedi'u cofrestru gan wasanaeth iechyd planhigion trawsffiniol y Comisiwn Coedwigaeth, i dderbyn deunyddiau heintiedig (Standard Operating Procedure, Plant Health 10) |
| | | Glastir – Cynllun Adfer Coetir | Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 | U | Adnoddau cyfyngedig ar gael | Agor drwy ffenestri a gyhoeddir ar wefan Llywodraeth Cymru | Llywodraeth Cymru | Ynghlwm wrth gyfnod ymgeisio penodol |

| Prif flaenoriaeth | Camau gweithredu | Dull | Sut | Blaenoriaeth | Risgiau | Pryd | Dan arweiniad | Ystyriaethau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfathrebu | Sicrhau bod y wybodaeth ysgrifenedig yn 'gyfredol' | Diweddariadau ar wefannau CNC a Llywodraeth Cymru | Adroddiadau sefyllfa rheolaidd wedi'u diweddaru ar wefan CNC. Adolygu gwefan LIC yn barhaus | U | Adnoddau cyfyngedig | Gydol y flwyddyn | CNC/ Llywodraeth Cymru | Angen cyflwyno gwybodaeth am y sefyllfa diweddaraf yng Nghymru i weddill Prydain, ac yn yr un modd, derbyn diweddariadau rheolaidd ar y sefyllfa yng ngweddill Prydain i gael y cyd-destun |
| | Gwella ymwybyddiaeth y sectorau coedwigaeth, coedyddiaeth a garddwriaeth o *P. ramorum* a sut i'w reoli | Defnyddio'r wasg fasnach | Erthyglau cyffredin | C | Adnoddau cyfyngedig | Gydol y flwyddyn | Llywodraeth Cymru | Pwyslais penodol fel a phan mae'r sefyllfa'n newid |
| | | Diweddariadau wyneb yn wyneb | Sioeau masnach, sioeau amaethyddol, cyfarfodydd a chymdeithasau | C | Adnoddau cyfyngedig | Gydol y flwyddyn | CNC/ Llywodraeth Cymru/ APHA | Pwyslais penodol fel a phan mae'r sefyllfa'n newid |
| | Gwella ymwybyddiaeth y cyhoedd o *P. ramorum* | Y wasg | Erthyglau | I | Adnoddau cyfyngedig | Gydol y flwyddyn | CNC/ Llywodraeth Cymru | Prydain gyfan |
| | Seminarau iechyd coed | Digwyddiad gwybodaeth a masnach cyhoeddus blynyddol | Cyfres o ddarlithoedd gan arbenigwyr mewn dau leoliad yng Nghymru | I | Cyllideb | Gydol y flwyddyn | CNC/ Llywodraeth Cymru/ APHA | Prydain gyfan |